

Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 27 Chwefror 2020 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 21 Chwefror 2020.

Yn

bresennol: Y Cyngorydd Sir Daniel De'Ath (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

15 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bowden, Morgan a Taylor.

16 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas ag Eitem 9

Cynghorydd	Math o Fuddiant	Buddiant
Berman	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Boyle	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Cowan	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
De'Ath	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Driscoll	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Ford	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Goodway	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Gavin Hill-John	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Phillipa Hill-John	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Howells	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Hudson	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro

		Morgannwg
Jones-Pritchard	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
McEvoy	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
McKerlich	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Merry	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Michael	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Naughton	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Owen	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Parkhill	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Phillips	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Dianne Rees	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Mia Rees	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Robson	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Sandrey	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Singh	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Graham Thomas	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Huw Thomas	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Walker	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Wild	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Williams	Personol	Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Elsmore	Personol	Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro
Goddard	Personol	Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro
Goodway	Personol	Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro
McEvoy	Personol	Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro
Robson	Personol	Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro
Dilwar Ali	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgolion Cynradd Gabalfa a Hawthorn
Berman	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Marlborough ac Ysgol y Berllan Deg
Boyle	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgolion Cynradd Howardian a Springwood
Bradbury	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Millbank a Champws Dysgu'r Gorllewin
Bridgeman	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Uwchradd y Dwyrain a Ffederasiwn yr Enfys
Burke-Davies	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Glan Ceubal
Carter	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Gatholig St Phillip ac Ysgol Gynradd Llanedern
Cowan	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Greenhill
Cunnah	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol

		Gymraeg Pwll Coch
De'Ath	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Albany
Derbyshire	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Tredelerch
Driscoll	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Danescourt
Ebrahim	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Mount Stuart
Elsmore	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Radnor ac Ysgol Gymraeg Treganna
Goddard	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Canolfan Blant Trelái a Chaerau ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis
Goodway	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
Gordon	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Severn
Henshaw	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Baden Powell
Gavin Hill-John	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Pentyrch
Hinchey	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgolion Cynradd Llwynbedw a Thon-Yr-Ywen
Hopkins	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Lakeside
Howells	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol - Ysgol Gynradd Adamsdown ac Ysgol Gynradd Stacey
Hudson	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Ton-yr-Ywen
Owen Jones	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol - Ysgol Gynradd Adamsdown ac Ysgol Gynradd Stacey
Jones-Pritchard	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Sefydliad The Pear Tree
Lancaster	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Uwchradd Llanisien
Lent	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgolion Cynradd Howardian a Pharc y Rhath
Lister	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Grangetown
Mackie	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol - Ysgolion Cynradd Cathays a Gladstone
McGarry	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Albany ac Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant
Molik	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Rhydypenau
Naughton	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
Jackie Parry	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Gatholig Santt Cadog
Patel	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol - Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Gynradd Lansdowne
Dianne Rees	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanelwng
Sandrey	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Springwood
Singh	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Kitchener
Stubbs	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol - Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gynradd Moorland

Huw Thomas	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol - Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Glan Morfa
Thorne	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Feithrin Grangetown ac Ysgol Gynradd Parc Ninian
Walker	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol – Ysgol Gynradd Llys-faen
Weaver	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol - Ysgol Uwchradd Cathays ac Ysgol Gynradd Gladstone
Williams	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol - Ysgol The Hollies ac Ysgol Gynradd Oakfield
Wong	Personol	Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol - Ysgol Uwchradd Cathays ac Ysgol Gynradd Parc y Rhath
Dianne Rees	Personol	Aelod o Gyngor Cymuned Pentref Llaneirwg
Williams	Personol	Aelod o Gyngor Cymuned Pentref Llaneirwg
Gavin Hill-John	Personol	Aelod o Gyngor Cymuned Pentyrch
McKerlich	Personol	Aelod o Gyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth
Graham Thomas	Personol	Aelod o Gyngor Cymuned Sain Ffagan
Jones-Pritchard	Personol	Aelod o Gyngor Cymuned Tongwynlais
Cowan	Personol	Aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg
Cunnah	Personol	Aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg
Henshaw	Personol	Aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg
Keith Jones	Personol	Aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg
Robson	Personol	Aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg
Michael	Personol	Aelod a benodwyd i Bwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd
Wild	Personol	Aelod a benodwyd i Bwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd
Huw Thomas	Personol	Aelod a Benodwyd i Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Merry	Personol	Aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
Huw Thomas	Personol	Aelod a benodwyd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Michael	Personol	Aelod a benodwyd i Gydbwyllgor y Prosiect Gwyrdd
Weaver	Personol	Aelod a benodwyd i Gydbwyllgor y Prosiect Gwyrdd
Michael	Personol	Aelod a benodwyd i Gydbwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.
Mackie	Personol	Aelod a benodwyd i Gydbwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.
Hinchey	Personol	Aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Cydweithfa Fabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd
Gavin Hill-John	Personol	Aelod anweithredol a benodwyd i Fws Caerdydd
Owen Jones	Personol	Aelod anweithredol a benodwyd i Fws Caerdydd
Lay	Personol	Aelod anweithredol a benodwyd i Fws Caerdydd
Sandrey	Personol	Aelod anweithredol a benodwyd i Fws Caerdydd
Singh	Personol	Aelod anweithredol a benodwyd i Fws Caerdydd
Merry	Personol	Aelod a benodwyd i Fwrdd CBAC a Choleg Caerdydd a'r Fro
Elsmore	Personol	Aelod a benodwyd i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
Boyle	Personol	Aelod a benodwyd i Gynulliad Cyffredinol y

		Gymdeithas Llywodraeth Leol
Merry	Personol	Aelod a benodwyd i Gynulliad Cyffredinol y Gymdeithas Llywodraeth Leol
Robson	Personol	Aelod a benodwyd i Gynulliad Cyffredinol y Gymdeithas Llywodraeth Leol
Huw Thomas	Personol	Aelod a benodwyd i Gynulliad Cyffredinol y Gymdeithas Llywodraeth Leol
Dilwar Ali	Personol	Aelod a benodwyd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Lister	Personol	Aelod a benodwyd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Ebrahim	Personol	Aelod a benodwyd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Naughton	Personol	Aelod a benodwyd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Williams	Personol	Aelod a benodwyd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Bradbury	Personol	Aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Elsmore	Personol	Aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Goodway	Personol	Aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Merry	Personol	Aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Michael	Personol	Aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Huw Thomas	Personol	Aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Thorne	Personol	Aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Weaver	Personol	Aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Bradbury	Personol	Aelod a benodwyd yn Ymddiriedolwr Amgueddfa Stori Caerdydd
Joyce	Personol	Yn byw mewn llety Cyngor
Mackie	Personol	Aelod o'r teulu'n Bennaeth y Gwasanaethau Gofal Integredig
Stubbs	Personol	Cydllynydd Digwyddiadau, Parc Tremorfa
Williams	Personol	Yn ymwneud ag anghydfod parhaus gyda Bws Caerdydd
Williams	Personol	Ymddiriedolwr Diverse Cymru
Williams	Personol	Ymddiriedolwr ar Gartrefi Gofal Cartref
Williams	Personol	Cyflogir aelodau o'r teulu gan Gyngor Caerdydd, ac mae un o'r rhain yn swyddog o'r GMB.

17 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 (anarferol) a 30 Ionawr 2020 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

18 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Croesawodd yr Arglwydd Faer y ddau holwr cyhoeddus i gyfarfod y Cyngor.

Cwestiwn Cyhoeddus 1 – *Mr Dave Hann*

Pa ymgynghori â thrigolion a busnesau lleol a gynhaliwyd cyn agor y ganolfan galw heibio yn yr hen glwb trafndiaeth ar Tudor Street?

Ateb – y Cyngorydd Thorne

Mae'r Cyngor wrthi'n caffael hen adeilad y Clwb Trafnidiaeth ar Tudor Street yng Nglanyrafon fel cyfle i ddatblygu tai cymdeithasol yn y dyfodol ac i hwyluso'r gwaith o wella coridor busnes Glanyrafon yn gyffredinol.

Rydym wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn ddiweddar o ran mynd i'r afael â phroblemau cysgu ar y stryd yn y ddinas. Mae'r llwyddiant hwn yn deillio, yn anad dim, o waith ein tîm Allgymorth yn cynnal gweithgareddau cymdeithasol cadarnhaol i bobl ddigartref lle gallant ymgysylltu mewn ffordd anffurfiol â gwasanaethau.

Mae'r tîm eisoes wedi cefnogi tua 300 o unigolion digartref i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis gweithdai celf, ffotograffiaeth a cherddoriaeth, gweithdai i Mewn i Waith a Chyngor ar Arian, yn ogystal â boreau coffi a sesiynau chwaraeon.

Mae'r tîm Allgymorth wrthi'n defnyddio rhandy'r hen Glwb Trafnidiaeth i gynnal rhai gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer ein poblogaeth ddigartref.

Er mai'r cynllun tymor hwy yw ailddatblygu'r adeilad, ar hyn o bryd rydym yn ystyried defnyddio'r adeilad, yn y byrdymor, fel Canolfan Cyngor a Gweithgareddau fwy cynhwysfawr ar gyfer pobl sy'n ddigartref.

Mae'r project yn un o nifer sydd wedi'i gynllunio ar gyfer eleni i helpu pobl sengl a chynplau sy'n ddigartref i weddnewid eu bywydau trwy ymyrraeth gadarnhaol, addysg a gweithgareddau dargyfeiriol.

Byddai'r ganolfan ar gael i gleientiaid sy'n chwilio am gymorth neu sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon a byddai'n cynnig mynediad i gyfrifiaduron ar gyfer cynhwysiant digidol ac yn galluogi unigolion i wneud cais am fudd-daliadau.

Byddai hefyd yn sicrhau bod gan y rhai sy'n cysgu ar y stryd neu sydd mewn llety brys rywle i fynd iddo yn ystod y dydd sy'n ddiogel a lle y gall amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd addysg helpu i roi eu bywydau yn ôl ar y trywydd iawn. Byddai mynediad yn cael ei reoli ac ni chaniateir defnyddio cyffuriau yn yr adeilad neu yn yr ardal o'i gwmpas.

Ar hyn o bryd, mae'r cynigion hyn yn dal i gael eu datblygu ac, wrth gwrs, bydd unrhyw newid sylweddol yn y defnydd a wneir o'r adeilad yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn y ffordd arferol.

Cwestiwn Atodol – Mr Dave Hann

O ran fy nghwestiwn mewn perthynas â pha ymgynghori â thrigolion a busnesau lleol a gynhaliwyd cyn agor y ganolfan galw heibio yn yr hen glwb trafndiaeth ar Tudor Street ac nid wyf yn teimlo y cefais ateb. Fy ail gwestiwn, os caf ofyn hynny yn awr, fel perchennog busnes bach gyda chwsmeriaid amrywiol y mae nifer ohonynt yn fenywod sengl a phlant, ac wedi siarad â pherchnogion busnesau bach eraill a

thrigolion o'r ardal sydd wedi gweld cynnydd mewn delio cyffuriau ar y stryd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ers agor y cynllun galw heibio diweddar hwn rydym yn teimlo bod yn rhaid i ni ofyn sut y gall hyn fod yn ychwanegu at ailddatblygiad ardal de Glanyrafon

Ateb – y Cyngorydd Thorne

Mae'n ddrwg gen i nad oeddech yn teimlo fy mod wedi ateb y cwestiwn yn iawn ond nid oes yr un wedi digwydd eto. Fel y dywedais eisoes, byddwn yn llunio cynigion ffurfiol ar ôl i ni wneud hyn, yna byddwn yn mynd drwy'r broses ymgynghori cyhoeddus gywir.

O ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae gennym wardeiniaid lleol sy'n rheoli ein blociau fflatiau uchel, gan gynnwys Litchfield Court, ac mae yna, ac wedi bod hefyd, nifer fawr o weithgareddau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf y bu i'r heddlu ymyrryd ynddynt mewn fflatiau sydd ar gael i bobl ddigartref, a adeiladwyd ar ddiwedd y 1990au yn benodol ar gyfer unigolion digartref.

Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthy ch yw ers mis Ionawr y llynedd hyd at fis Medi eleni, cafwyd 10 adroddiad y mis ar gyfartaledd ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Litchfield Court. Yn ystod mis Tachwedd, pan ddechreuom ddefnyddio'r Clwb Trafnidiaeth, gostyngodd hynny i 4. Ym mis Rhagfyr gwnaeth godi ychydig ond fis Ionawr aeth yn ôl i 4. Derbyniaf fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal honno ond ni allaf dderbyn ei fod yn ymwneud â'r gweithgareddau sy'n digwydd ar hyn o bryd, nid ydynt yn wahanol mewn gwirionedd i'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal - boreau coffi 7 diwrnod yr wythnos yn The Little Man Coffee ar Tudor Street a chredaf y bydd y pethau yr ydym am eu gwneud mewn gwirionedd yn atal yr ymddygiad gwrthgymdeithasol hwnnw ond rwy'n deall eich pryderon a byddwn yn ei fonitro a'i ystyried.

Cwestiwn Cyhoeddus 2 - Mr Richard Collins

Mae Caerdydd wedi colli'r rhan fwyaf o'i lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd ardrethi busnes andwyol a diffyg elw. Gyda chyfleusterau perfformiad byw mor ardderchog yn y Clwb Trafnidiaeth, a fyddai'r Cyngor yn ystyried cadw'r Clwb Trafnidiaeth fel canolfan gymunedol sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu offerynnau ac i bob diwylliant a ffydd ddod at ei gilydd? Byddai hyn yn dod â lefel o lesiant a llawenydd i ardal mor dlawd ac wedi'i hesgeuluso.

Ateb – y Cyngorydd Bradbury

Hoffwn ddweud ar y dechrau nad wyf yn cytuno â'r honiad bod y ddinas wedi "*colli'r rhan fwyaf o'i lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad*" ac nid yw ardrethi busnes yn cael eu gosod gan Gyngor Caerdydd, mae hynny'n cael ei wneud yn genedlaethol.

Yn ôl fy nealltwriaeth i, caewyd y Clwb Trafnidiaeth – fel llawer o dafarndai a chlybiau yn y DG, ac yn wir yng Nglanyrafon, yn gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf – gan nad oedd bellach yn hyfyw iddo weithredu fel clwb cymdeithasol am y rheswm syml nad oedd yn cael ei ddefnyddio digon gan gwsmeriaid a oedd yn talu.

Rwy'n cydnabod yr heriau sy'n wynebu lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad y ddinas, ond mae llawer o leoliadau ffyniannus a chynaliadwy yn y ddinas o hyd. Trwy weithio gyda phartneriaid yn y ddinas ar Fwrdd Cerddoriaeth Caerdydd sydd newydd ei sefydlu, byddwn yn edrych ar ffyrdd amrywiol o gefnogi'r lleoliadau hyn.

Mae Arweinydd y Cyngor hefyd wedi ysgrifennu at Weinidog Llywodraeth Cymru dros Gyllid i ofyn bod rhyddhad ardrethi i leoliadau perfformio yng Nghymru er mwyn helpu i gefnogi eu dichonoldeb yn y dyfodol.

Fel y cadarnhawyd gan fy nghydweithiwr yn y Cabinet, y Cyngorydd Thorne, mewn ymateb i'r cwestiwn blaenorol, mae'r Cyngor wrthi'n caffael hen adeilad y Clwb Trafnidiaeth i'w ddatblygu'n dai cymdeithasol yn y tymor hirach.

Yn y byrdymor, mae cynigion yn cael eu datblygu i'r adeilad gael ei ddefnyddio gan rai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, a hynny ar ffurf Canolfan Gyngori a Gweithgareddau i bobl sy'n ddigartref.

Cwestiwn Atodol – Mr Richard Collins

Dim ond pwynt am leoliadau sy'n ffynnu yng Nghaerdydd - rwy'n deall yr hyn rydych yn ei ddweud ond, fel rhan o sîn gerddorol Caerdydd, rydym yn teimlo mai dim ond y pethau sylfaenol sydd gennym ar hyn o bryd. Os ydych yn edrych ar y blynyddoedd diwethaf rydym wedi colli Buffalo, Abacus, 10 Feet Tall, Gwdihw's, Dempsey's, Bogeys. Rwy'n deall yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ei wneud i gefnogi'r lleoliadau hyn, ond rydym yn teimlo mai dim ond y pethau sylfaenol sydd gennym.

Tybed, fel cynnig gen i, yn y tymor byr ar gyfer yr adeilad a fyddai diddordeb gennych mewn prydlesu'r adeilad i mi lle y gallwn ddechrau ar ofod celf cymunedol, wedi'i ariannu gennyf fi, oherwydd mae cymaint o fodolau diddorol i roi cychwyn ar hyn a gallai fod yn rhyw fath o eiddo i'r gymuned. Byddai'n cadw'r trigolion lleol sy'n teimlo bod yr ardal hon o Lanyrafon yn orlawn o wasanaethau tebyg - cyfnewidfeydd nodwyddau, gwasanaethau prawf, a gallai hyn fod yn ofod i'r holl drigolion lleol ei fwynhau fel cynrychiolaeth o'r ardal, cynrychiolaeth o'r diwylliannau lleol, lle y gallem i gyd ddod i fwynhau'r adeilad a gallai fod yn ased gwirioneddol i Lanyrafon.

Ateb – y Cyngorydd Bradbury

Yn anffodus, nid yw o fewn fy mhŵer i wneud y math hwnnw o ymrwymiad ac mae fy nghydweithiwr yn y Cabinet wedi ateb yn y cwestiwn blaenorol ynghylch yr hyn rydym yn ei wneud gyda'r adeilad hwnnw ar hyn o bryd. Fodd bynnag, derbynïaf y pwynt rydych yn ei wneud o ran lleoliadau cerddoriaeth yn gyffredinol. Mae'r Cyngor yn cefnogi ail-leoli Gwdihw gyda'n tîm datblygu economaidd yn eu helpu gyda'u cynllun busnes. Rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd Cerddoriaeth, er enghraifft, i wneud yn siŵr bod gan y sector lais cryf, nid yn unig i ddiogelu lleoliadau sy'n bodoli eisoes ond i greu sîn gerddoriaeth ffyniannus sydd ei heisiau a'i hangen yn fawr ar ein prifddinas.

Efallai eich bod wedi darllen am y digwyddiad cerddoriaeth unigryw rydym yn ei drefnu gyda'r sector, nid dim ond artistiaid mawr, ond stwff llawr gwlad hefyd. Rydym

wedi cefnogi mentrau fel y Tramshed sydd wedi creu lleoliad cerddoriaeth cynaliadwy da iawn, sydd ond o amgylch y gornel i'r Clwb Trafnidiaeth. Rydym wedi rhoi prydles o 125 mlynedd i Chapter yn y blynyddoedd diwethaf ac rydym hefyd wedi cefnogi celfyddydau cymunedol mewn lleoliadau fel Neuadd Gymunedol Treganna.

Y peth pwysig yw bod pobl sy'n hoffi cerddoriaeth yn mynd allan ac yn defnyddio'r lleoliadau hyn, ac mai dyna'r ffordd orau o'u hamddiffyn, a dywedaf hynny fel rhywun sy'n lladmerydd cryf dros Stryd Womanby, ac roeddwn wrth fy modd â thafarn y Westgate a gaeodd yn Ne Glanrafon, er enghraifft. Mae angen eu defnyddio a dyna'r peth pwysig i wneud yn siŵr bod lleoliadau cymunedol fel hyn yn ddichonadwy yn yr hirdymor. Rwy'n hapus i gyfarfod â chi i drafod eich gweledigaeth ar gyfer celfyddydau yn y ddinas, ond rwy'n ofni yn yr achos arbennig hwn nad yw'r pwerau gennyf i roi i chi'r hyn rydych yn ddymuno ei gael o ran y Clwb Trafnidiaeth.

19 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Mynegodd yr Arglwydd Faer ei dristwch ynghylch y cyn-gynghorydd, Ann Cox, a fu farw'n ddiweddar yn 87 mlwydd oed. Roedd wedi bod yn Gynghorydd Ward Plasnewydd am 13 o flynyddoedd ac wedi ei hethol gyntaf yn 1991. Roedd Ann yn hyrwyddo hawliau menywod ac aeth ymlaen i weithio fel Swyddog Cyllid ar gyfer Gweithdy Menywod Caerdydd a Chymorth i Fenywod yn ddiweddarach. Roedd Ann hefyd yn llywodraethwr yn ysgolion Cynradd Albany a Pharc y Rhath ac yn gadeirydd yn Albany am 7 mlynedd. Yn 2015 cyflwynwyd Gwobr Teilyngdod y Blaid Lafur i Ann am ei blynyddoedd lawer o wasanaeth ac yn ei blynyddoedd diweddarach roedd hi'n cyfrannu'n rheolaidd at dudalen llythyrau'r Western Mail.

Dywedodd yr Arglwydd Faer hefyd y byddai'r Cynghorwyr Joe Boyle a Mike Phillips yn rhedeg marathon Llundain ddiwedd mis Ebrill ar ran y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol a Mind. Byddai'r Cynghorydd Mike Phillips hefyd yn cystadlu yn IronMan Cymru i godi arian ar gyfer Mind.

20 : DEISEBAU

Y ddeiseb ar-lein a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Hudson gyda 2300 o lofnodion, yn galw ar y Cyngor i gadw'r storfeydd chwaraeon, yr ystafelloedd newid a'r toiledau gyda Pharc y Mynydd Bychan. Er mwyn bwrw ymlaen â'r ddeiseb hon, mae'r Gwasanaethau Democritaidd yn disgwyl derbyn y ddeiseb yn y fformat cywir.

Y ddeiseb ar-lein a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Berman yn galw ar y Cyngor i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ariannu a gosod mesurau arafu traffig ar gyfer Cyffordd Kimberley Road/Blenheim Road yn dod yn flaenoriaeth allweddol yn y flwyddyn ariannol nesaf. Er mwyn bwrw ymlaen â'r ddeiseb hon, mae'r Gwasanaethau Democritaidd yn disgwyl derbyn y ddeiseb yn y fformat cywir.

21 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

Hysbysodd yr Arglwydd Faer y Cyngor fod diwygiad i'r tabl ar dudalen 12 yr adroddiad a oedd yn dangos dadansoddiad o'r cwynion bob chwarter. Mae'r diwygiad wedi'i nodi'n llawn yn y Daflen Ddiwygiadau sydd wedi'i dosbarthu.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer yr Athro James Downe, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moseg i gyflwyno'r adroddiad.

Diolchodd yr Athro Downe i Gadeirydd blaenorol y Pwyllgor Safonau a Moseg, Richard Tebboth, am ei arweinyddiaeth a'r gefnogaeth yr oedd wedi'i rhoi i'r Pwyllgor. Gwnaeth yr Athro Downe gyfeiriad at Arolwg yr Aelodau a hefyd sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol, o safbwynt busnes y Cyngor.

Diolchodd yr Arglwydd Faer i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moseg am ei adroddiad.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

22 : CYNLLUN CORFFORAETHOL CYNGOR CAERDYDD 2020-23

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas, y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-23, a oedd wedi ei ddatblygu ar y cyd â'r broses ar gyfer datblygu a gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2020-21.

Cafodd y Cynllun Corfforaethol ei eilio gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, y Cynghorydd Merry a ailadroddodd flaenoriaethau'r weinyddiaeth i gyflawni ar greu cyfleoedd, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, tloedi ac afiechyd, gweithredu ar ddigartrefedd ac amddiffyn y mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr eitem.

Yn ystod y drafodaeth, cynigiodd y Cynghorydd Adrian Robson gyfeiriad yn ôl.

Eiliwyd y cynnig i gyfeirio'n ôl gan y Cynghorydd Jayne Cowan.

Yn ystod y drafodaeth ar y Cynllun Corfforaethol, gwnaed sylwadau ynghylch y canlynol:

- Yr uchelgais a'r targedau yn y Cynllun Corfforaethol a sut y gallai Caerdydd gyflawni mwy;
- Yr heriau i wasanaethau a blaenoriaethau allweddol megis ymyrraeth gynnar a pwysigrwydd y Porth Cymorth Cynnar;
- Cryfhau gwasanaethau ataliol a chymorth;
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau;
- Materion amgylcheddol fel lleihau allyriadau carbon; newid yn yr hinsawdd; a lleihau gwastraff;
- Pwysigrwydd cyfleoedd addysg; a
- Gwaith partneriaeth

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer yr Arweinydd i ymateb i'r pwyntiau a godwyd.

Galwodd yr Arglwydd Faer bleidlais ar y cynnig i gyfeirio'n ôl fel y'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Adrian Robson a'i eilio gan y Cynghorydd Jayne Cowan.

COLLWYD y cynnig i gyfeirio'n ôl.

Galwodd yr Arglwydd Faer bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad fel y'u cynigiwyd gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas.

ENILLWYD y bleidlais.

PENDERFYNWYD

1. Cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-2023.
2. Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-23 (Atodiad A) yn dilyn ystyriaeth gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2020 a chyn ei gyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2020

23 : CYNIGION AR GYFER CYLLIDEB 2020 - 2021

*(Nodwyd buddiannau a ddatganwyd gan yr Aelodau dan erthygl 10 Cod Ymddygiad yr Aelodau fel y nodir yng Nghofnod Rhif **)*

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried Cynigion y Cabinet fel y'u nodir yn yr adroddiad ar y cynigion ar gyfer cyllideb 2020-2021.

Rhoddodd yr Arglwydd Faer wybod i'r Cyngor fod Atodiad 4(c) yr adroddiad hwn yn wybodaeth wedi'i heithrio dan Atodlen 12A Rhan 4 Paragraff 14 a Rhan 5 Paragraff 21 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac os bydd unrhyw Aelod yn nodi ei fod yn dymuno trafod unrhyw ran o'r wybodaeth sydd yn y ddogfen honno, byddai'r siaradwyr hynny'n siarad ar ddiwedd y drafodaeth gan y byddai'n rhaid gwahardd y Cyhoedd o'r drafodaeth honno.

Nodwyd tri chynnis amgen i adroddiad y Gyllideb, a chyngor angenrheidiol gan swyddogion statudol dan bob un o'r diwygiadau ar y daflen Ddiwygiadau cyn cyfarfod y Cyngor. Nid bwriad yr Arglwydd Faer felly oedd caniatáu i gwestiynau gael eu gofyn i'r Swyddogion Statudol ynghylch y cynigion ger bron y Cyngor.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver, i gynnig Adroddiad y Cabinet.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet gyllideb y weinyddiaeth i'w chymeradwyo. Roedd yn gyllideb uchelgeisiol, wedi'i gosod o fewn rhagolwg ariannol heriol â'r nod oedd adeiladu ar egwyddorion Uchelgais Prifddinas a chynnal ffocws ar berfformiad a gwasanaethau statudol. Gwneud y defnydd gorau o incwm a gynhyrchir a datblygu partneriaethau cryfach. Eleni gohiriwyd yr amserlen o ganlyniad i'r Etholiad Cyffredinol, gyda'r setliad terfynol yn cael ei ddarparu yr wythnos hon, ac i Gaerdydd nid oedd unrhyw newidiadau. Roedd cynhyrchu incwm yn hollbwysig ynghyd â'r defnydd priodol o gronfeydd wrth gefn.

Codiad o 4.5% yn y Dreth Gyngor, un o'r codiadau isaf yng Nghymru. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chyllido Cyfalaf, a'r defnydd o'r

Mecanwaith Gwydnwch Ariannol a'r asesiad risg, oll yn bethau a ddefnyddiwyd yn y broses o gynllunio'r gyllideb ar gyfer 2020/21.

Nododd yr Aelod Cabinet y tri diwygiad amgen a dderbyniwyd, ond byddai defnyddio arian wrth gefn a gwydnwch yn rhoi adnoddau'r Cyngor mewn perygl ac yn gwanhau ei wydnwch.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i gydweithwyr Cabinet, Arweinwyr Grwpiau a llefarwyr; Cadeiryddion Craffu, Aelodau, y Swyddog Adran 151, Uwch Reolwyr, a phawb a fu'n gysylltiedig â dwyn cynigion y gyllideb ynghyd a chymeradwyodd gynnig y Cabinet i'r Cyngor.

Eiliwyd y Gyllideb arfaethedig ar gyfer 2020/21 gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas.

Canolbwyntiodd yr Arweinydd ar yr egwyddorion allweddol a amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Byddai'r gyllideb hon yn cefnogi'r genhedlaeth nesaf, plant a phobl ifanc, gan gyflymu economi Caerdydd ac ymateb Caerdydd i argyfwng yr hinsawdd. Cefnogi pobl sy'n agored i niwed a gwella ansawdd gwasanaethau gofal. Buddsoddiad o 300M yn ailadeiladu ac adfer ysgolion. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn ogystal â chynnig mynediad i swyddi da, a thrafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy a hygyrch.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gynigydd ac eilydd pob un o'r diwygiadau i gynnig eu cynnig yn ffurfiol ac i siarad.

Cynigiodd y Cynghorydd Gavin Hill-John gynnig cyllideb amgen y Ceidwadwyr a siaradodd am y diwygiad. Eiliodd y Cynghorydd Robson y diwygiad a siaradodd.

Cynigiodd y Cynghorydd Berman gynnig cyllideb amgen y Democratiaid Rhyddfrydol a siaradodd am y diwygiad. Eiliodd y Cynghorydd Boyle y diwygiad a siaradodd.

Cynigiodd y Cynghorydd McEvoy gynnig cyllideb amgen Plaid Cymru a siaradodd am y diwygiad. Eiliodd y Cynghorydd Keith Parry y diwygiad a siaradodd.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar gynigion y Cabinet a'r tri chynnig amgen.

Rhoddodd yr Aelodau sylwadau ar y cynigion ar gyfer y gyllideb a'r diwygiadau a chodwyd nifer o faterion gan gynnwys anawsterau o ran ateb y galw am wasanaethau i oedolion a phlant a'r pwysigrwydd o gefnogi a diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Rhoi cefnogaeth i wasanaethau byw'n annibynnol a phwysigrwydd mynd i'r afael ag unigrwydd a rhoi cymorth i ddinasyddion sydd â dementia.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd buddsoddi mewn pobl ifanc, addysg, anghenion dysgu ychwanegol; gwasanaeth ieuencid, gwasanaethau maethu; pobl sy'n gadael gofal, cyflogaeth a hyfforddiant; datblygu darpariaethau tai fforddiadwy a llety hygyrch; yr angen i fynd i'r afael â thlodi.

Trafododd yr Aelodau fuddsoddiad mewn seilwaith, cynlluniau traffig, hyrwyddo teithio llesol - cerdded a beicio; a lleoliad yr orsaf fysus.

Cododd yr Aelodau bryderon hefyd o ran defnyddio arian wrth gefn.

Diolchodd yr Arglwydd Faer i'r Aelodau am eu cyfraniad i'r drafodaeth a gwahoddodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver, i ymateb i'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Cymerodd yr Arglwydd Faer y pleidleisiau fel a ganlyn:

COLLWYD y bleidlais ar ddiwygiad y Ceidwadwyr a gynigiwyd gan y Cynghorydd Gavin Hill-John ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Adrian Robson.

COLLWYD y bleidlais ar ddiwygiad y Democratiaid Rhyddfrydol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Berman ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Boyle.

COLLWYD y bleidlais ar ddiwygiad Plaid Cymru a gynigiwyd gan y Cynghorydd McEvoy ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Keith Parry.

PASIWYD y bleidlais ar yr argymhellion a gynigiwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

1.0 Cymeradwyo'r cyllidebau Refeniw, Cyfalaf, Cyfrif Refeniw Tai gan gynnwys yr holl gynigion a chynyddu'r Dreth Gyngor gan 4.5% fel y nodir yn yr adroddiad hwn a bod y Cyngor yn cadarnhau'r termau canlynol.

2.0 Nodi y cyfrifodd y Cabinet yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr 2019 y symiau canlynol ar gyfer flwyddyn 2020/21 yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

a) 147,277 – sef y swm a gyfrifwyd yn unol â Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrif Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, fel sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn.

b)	Llys-faen	2,499
	Pentyrch	3,316
	Radur	3,841
	Sain Ffagan	1,592
	Pentref	2,047
	Llaneirwg	820
	Tongwynlais	

sef y symiau a gyfrifwyd yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau fel swm sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer anheddau yn rhannau'r ardal y mae eitemau arbennig yn gysylltiedig â nhw.

2.1 Cytuno bod y symiau canlynol bellach yn cael eu cyfrif gan Gyngor

Sir Dinas a Sir Caerdydd ar gyfer y flwyddyn 2020/21 yn unol ag Adranau 32 i 36 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992:-

- a) Cyfansymu'r symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) i (d) (gan gynnwys prae-septau'r Cyngor Cymuned sy'n £445,570)
£1,069,798,570
- b) Cyfansymu'r symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) a (c)
£414,317,000
- c) Y swm y mae'r cyfanswm yn 2.1(a) yn fwy na'r cyfanswm yn 2.1(b) uchod a gyfrifwyd yn unol ag Adran 32(4) fel y gofyniad ar gyfer cyllideb y flwyddyn.
£655,481,570
- d) Cyfansymu'r symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y cânt eu talu yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor mewn perthynas â'r Grant Cynnal Refeniw, cynllun gostyngiad treth gyngor, Ardrethi Annomestig wedi'u hailddosbarthu.
£469,047,025
- d) Y swm ar 2.1(c) uchod ond gan dynnu swm 2.1(d) (net y swm ar gyfer rhyddhad diamod o £400,000), i gyd wedi'u rhannu gan y swm ar 2.0(a) uchod, wedi'i gyfrifo yn unol ag Adran 33(1) fel swm sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn.
£1,268.59
- f) Cyfansymu swm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1)
£445,570
- g) Swm 2.1(e) uchod ond gan dynnu'r canlyniad a geir trwy rannu swm 2.1(f) uchod gan swm 2.0(a) uchod, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer aneddiadau yn y rhannau hynny o'r ardal lle nad oes eitemau arbennig yn berthnasol iddynt
£1,265.57
- h) Y symiau a geir trwy ychwanegu at swm 2.1(g) uchod y symiau o eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a nodir isod, wedi'u rhannu ym mhob achos gan swm 2.0(b) uchod, wedi'u cyfrifo'n unol ag Adran 34(3) fel symiau sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal lle y mae eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

Llys-faen £1,283.58
Pentyrch £1,318.34

Radur	£1,298.44
Sain Ffagan	£1,284.99
Pentref	£1,287.33
Llaneirwg	£1,293.62
Tongwynlais	

- i) Y symiau a geir trwy luosogi symiau 2.1(g) a 2.1(h) uchod gan y rhif sydd, yn y gyfran a nodir yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Bandiau Gwerthuso) 2003, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band gwerthuso penodol wedi'i rannu gan y rhif sydd, yn y gyfran hon, yn berthnasol i aneddiadau a restrir ym mand gwerthuso D wedi'i gyfrif yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategoriâu anheddau a restrir mewn bandiau gwerthuso gwahanol.

** 1

Llys-faen
Pentyrch
Radur
Sain Ffagan
Pentref Llaneirwg
Tongwynlais
Pob rhan arall o ardal y Cyngor

2.2	Nodi bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddau dros Dde Cymru, ar gyfer y flwyddyn 2020/21, wedi dweud bod y symiau canlynol mewn prae-septau wedi'u cyhoeddi i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:-
-----	--

BANDIAU PRISIO

** 2

2.3	Wedi cyfrif y cyfanswm ym mhob achos y symiau ar 2.1(i) a 2.2 uchod, mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 drwy hyn yn pennu'r symiau canlynol fel symiau'r Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2020/21 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:-
-----	---

Rhan o Ardal y Cyngor
BANDIAU PRISIO

** 3

2.4 Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i wneud taliadau dan Adran 38 Deddf Lywodraeth Leol (Cymru) 1994 o Gronfa'r Cyngor trwy randaliadau cyfartal ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis o fis Ebrill 2020 tan fis Mawrth 2021 mewn perthynas â'r praesept a godwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru sef £40,164,662.

2.5 Cytuno bod y Sêl Gyffredin yn cael ei hatodi i'r Dreth Gyngor ddywededig.

2.6 Cytuno bod y Sêl Gyffredin yn cael ei hatodi i braeseptau ar gyfer Treuliau Iechyd Porthladd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2021 sef

Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd	£113,783
---------------------------------	----------

Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg	£12,817
--	---------

2.7 Cytuno bod hysbysiadau o greu'r Trethi Cyngor dywededig wedi'u llofnodi gan y Prif Weithredwr yn cael eu hysbysebu yn y wasg leol dan Adran 38(2) Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992.

3.0 Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003, Rheoliadau Awdurdod Lleol (Arian Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 a'r diwygiadau olynol a Chod Cyngori CIPFA a Chodau Ymarfer Rheoli'r Trysorlys:

(a) Cymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2020/21.

(b) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020/21 ac awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i godi arian y mae ei angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyc dros dro neu'n hirdymor

(c) Cymeradwyo'r Dangosyddion Cyngori ar gyfer 2020/21 – 2024/25, yn cynnwys yr uchafswm benthyg fforddiadwy

(ch) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151 symud rhwng yr uchafsymiau ar gyfer benthyg a'r dyledion hirdymor mewn unrhyw flwyddyn a symud dyddiadau cynlluniau yn y Rhaglen Cyfalaf ymlaen neu'n ôl.

(d) Cymeradwyo'r Polisi Darpariaeth Refeniw Lleiaf ar gyfer 2019/20 a 2020/21.

4.0 Cymeradwyo'r Fframwaith Cyllidebol a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

5.0 Cynnal y Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor fel y nodir yn yr adroddiad.

24 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw Faterion Brys.

25 : PENODIADAU PWYLLGOR

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r enwebiadau i swyddi gwag yn unol â dymuniadau'r grŵp gwleidyddol ac fel yr adroddwyd ar y daflen ddiwygiadau ar gyfer y Cyngor.

PENDERFYNWYD – nodi na dderbyniwyd unrhyw enwebiadau.

26 : PENODI CYNRYCHIOLWYR I GYRFF ALLANOL

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo penodi cynrychiolwyr y Cyngor i gyrff allanol statudol ac anstatudol.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r penodiadau canlynol

Corff	Penodi
Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro	Y Cynghorydd Dilwar Ali